*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd (07385401877)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 26AIN AWST, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW’N AELODAU O’R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 24 AWST 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021.

**5 - 10**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**5. CAIS RHIF: 21/0720/15**

Parhau â chwarela a gweithrediadau cysylltiedig heb gydymffurfio ag amodau 1 - 4 ac amodau 45 a 46 a osodwyd yn rhan o atodlen amodau Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau, Deddf yr Amgylchedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 24 Ebrill 2013, cyf: 08/1380/10
**Chwarel Craig yr Hesg, Heol Berw, Pontypridd, CF37 3BG**

**11 - 50**

**ARCHWILIAD O'R SAFLE**

**6. CAIS RHIF: 20/1182**

Datblygu pum annedd ar wahân (Cymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl yn unol â rhoi caniatâd amlinellol ar 14/1308/13, fel yr estynnwyd gyda 19/0334/15) (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 23/03/2021).
**HEN SAFLE LLYFRGELL CWM-BACH, RHES MORGAN, CWMBACH, ABERDÂR**

**51 - 68**

**7. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd J Williams ac Y Cynghorydd D Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd